# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Mount Pleasant

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Mount Pleasant yn gymuned ysgol anogol a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu hamddiffyn a'u gwerthfawrogi. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer yr ysgol. Mae hi'n wybodus ac yn angerddol am sut gall yr ysgol wneud gwahaniaeth o fewn y gymuned i ddisgyblion a'u teuluoedd.

Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn diwallu eu hanghenion emosiynol yn effeithiol. Maent yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol a pharchus â disgyblion, gan greu amgylcheddau dysgu tawel a phwrpasol. Mae disgyblion yn dangos parch at ei gilydd ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu. Mae eu hymddygiad yn eithriadol o dda.

Mae llawer o athrawon yn ennyn diddordeb disgyblion yn effeithiol yn eu dysgu gyda gweithgareddau cyffrous a diddorol. Maent yn defnyddio asesu yn effeithiol i gynllunio gwersi sy'n helpu disgyblion i ddatblygu ystod o fedrau a gwneud cynnydd yn eu dysgu. Mae'r defnydd o ofodau dysgu awyr agored yn datblygu'n dda i gefnogi dysgu disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro'n rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth a'u creadigrwydd.

Mae staff yn cefnogi disgyblion yn dda, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel neu'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd a darllen yn dda, gan ddangos hyder wrth siarad a gwrando. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos hyfedredd yn eu medrau rhif ac yn cymhwyso'r rhain yn effeithiol i ddatrys problemau mathemategol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu hysgrifennu. Maent yn ysgrifennu'n dda ar gyfer gwahanol ddibenion a chynulleidfaoedd. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd a buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg.

Mae arweinwyr yr ysgol wedi ymrwymo i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae staff yn gweithio'n effeithiol iawn gydag ysgolion lleol eraill yn y clwstwr. Maent yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd strwythuredig tuag at gamau gweithredu a deilliannau cytûn, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau addysgu a dysgu.

Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi cysylltiadau teuluol a chymunedol effeithiol ac yn ymdrechu i sicrhau eu bod yn ffurfio perthnasoedd cryf â'r teuluoedd.

Mae arweinwyr yn cynnal ystod eang o weithgareddau i werthuso ansawdd gwaith yr ysgol. Mae hyn yn rhoi darlun cywir iddynt o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Maent yn dewis blaenoriaethau'r ysgol yn ofalus ac yn sicrhau eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar ddysgu'r disgyblion. Mae llywodraethwyr yn deall yr ysgol yn dda ac yn darparu cymorth a her addas.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion gyfeirio eu dysgu eu hunain a datblygu eu hannibyniaeth

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/08/2025